



# NWRWTP

North Wales Residual Waste Treatment Project

## Eitem Agenda 6

**ADRODDIAD I: CYD-BWYLLGOR NWRWTP**

**DYDDIAD: 4ydd MAWRTH 2022**

**ADRODDIAD GAN: RHEOLWR CONTRACT A PHRIF WEITHREDWR ARWEINIOL**

**TESTUN: ADRODDIAD CRONFA LLES CYMUNEDOL**

### **1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

- 1.1. Cyflwyno diweddariad ar ddatblygu a lansio Cronfa Lles Cymunedol Parc Adfer (CBF).

### **2. CEFNDIR**

- 2.1. Fel rhan o gaffael contract Parc Adfer a phartneriaeth NWRWTP, cytunwyd i ariannu a rheoli CBF a fyddai'n rhedeg gydol parhâd y contract. Ymrwymiad cytundebol yw'r CBF rhwng yr Awdurdod ac Enfinium (gynt Wheelabrator Technologies Inc (WTI)) ac mae hefyd yn ymrwymiad cytundebol gan bob awdurdod unigol sy'n bartner o fewn yr ail Gytundeb Rhyng-Awdurdod (IAA2).
- 2.2. Cronfa flynyddol o £230,000 yw hon, sef £180,000 y flwyddyn oddi wrth y 5 awdurdod sy'n bartneriaid a £50,000 y flwyddyn oddi wrth Enfinium, a dechreuodd cronfeydd gasglu ar ddyddiad cychwyn y contract (20fed Rhagfyr 2019).
- 2.3. Ym mis Mehefin 2019, cymeradwyodd y Cyd Bwyllgor i ddirprwyo datblygiad a gweithrediad y CBF i Sir y Fflint fel yr awdurdod arweiniol, a chytuno i osod o'r neilltu gyfran o'r gronfa (rhwng £30k a £50k fel ffigwr arweiniol) ar gyfer gweithredu a mynediad i'r Ganolfan Addysg Ymwelwyr ar gyfer ysgolion ar draws y pump awdurdod sy'n bartneriaid. Mae hyn yn cynnwys datblygu deunydd addysgol ayyb, gweithwyr sesiynol ar gyfer grwpiau myfyrwyr / ysgolion a thrafnidiaeth rhad i fyfyrwyr / ysgolion i'r adnodd ar gyfer y pump cyngor sy'n bartneriaid.
- 2.4. Fel rhan o ddatblygiad y CBF, cynhaliwyd ymgynghoriad yn ystod ail hanner 2019 gyda rhanddeiliaid sydd yn agos at yr adnodd gan gynnwys cynghorau cymuned lleol (e.e. Cyngor Tref Cei Conna) ac Aelodau Lleol o ran rheoli'r gronfa a meini prawf cymhwyster ayyb. Nid oedd angen unrhyw newidiadau sylweddol i'r trefniadau rheoli a gynigiwyd yn dilyn adborth. Caiff y trefniadau hynny eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn.



### 3. YSTYRIAETHAU

#### Cronfa Adfer Cymunedau Parc Adfer (CRF)

- 3.1. Pan oedd gweithrediad y CBF yn cael ei baratoi yn gynnar yn 2020, fe ddechreuodd pandemig Cofid-19 gan olygu nad oedd yn bosibl symud ymlaen gyda'r gronfa am nifer o fisoedd. Yn dilyn hyn, yn ystod haf 2020, gwnaed cynlluniau i ddefnyddio'r CBF fel cronfa Adfer Cymunedau (CRF) er mwyn helpu cymunedau o fewn ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy gyda'r heriau yr oeddent yn eu wynebu o ganlyniad i bandemig Cofid-19.
- 3.2. Cafodd CRF Parc Adfer ei sefydlu fel cronfa dros dro am amser byr - lanswyd hi yn niwedd 2020 gan dderbyn ceisiadau hyd fis Tachwedd 2021. Bu i'r gronfa ariannu dros 12 o brosiectau gwerth bron i £70,000. Gweler Atodiad 2 isod am fanylion pellach.
- 3.3. Pan gauwyd y CRF byr dymor, dechreuodd gwaith yn hwyr yn 2021 i gwblhau'r prosiect a meini prawf cymhwyster y prif CBF tymor hir. Cafodd y rhai hyn eu cymeradwyo gan gabinet Cyngor Sir y Fflint yn Ionawr 2022, ac mae'r gronfa yn barod i'w lansio ym mis Mawrth 2022. Mae'r meini prawf cymhwyster, meini prawf prosiect a threfniadau rheoli wedi eu hamlinellu isod.

#### Meini Prawf Cymhwyster

- 3.4. Mae'n rhaid i sefydliadau a all wneud cais fod wedi eu lleoli'n lleol neu fod yn gwasanaethu preswylwyr / cymunedau o fewn Ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy (gweler y map). Hefyd, mae'n ofynnol iddynt fod yn un o'r canlynol:-
  - Grwpiau nid er elw ;
  - Sefydliadau cymunedol neu elusennol;
  - Mentrau cymunedol a chymdeithasol (e.e. mentrau cydweithredol, ymddiriedolaethau datblygu);
  - Elusennau lleol gyda'u pencadlys o fewn ffiniau Ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy. Mae cyrff cyhoeddus megis ysgolion yn gymwys i ymgeisio, fodd bynnag, ar gyfer gwariant y tu allan i ddyletswyddau'r awdurdod addysg lleol yn unig – bwriad y gronfa yw cefnogi buddion ychwanegol ac nid i gymryd lle dyletswyddau ariannol yr Awdurdod Lleol.
- 3.5. Bydd yn ofynnol i ymgeiswyr fod â chyfansoddiad ysgrifenedig, cyfres o reolau, neu ddogfen llywodraethu, cyfrif banc neu gymdeithas adeiladu gydag o leiaf ddau lofnodwr iddo, cyn gwneud cais am grant. Gall sefydliadau newydd nad oes ganddynt y gofynion hyn drafod eu prosiect gyda thîm y gronfa i weld os yw'n bosibl eu helpu. Ni chaiff ymgeiswyr llwyddiannus ail ymgeisio am grant arall o Gronfa Lles Cymunedol Parc



Adfer onibai eu bod yn derbyn caniatâd pendant oddi wrth y Gronfa Lles Cymunedol.

3.6. Mae pump prif faen prawf yn bydd CBF Parc Adfer yn eu cefnogi, maent wedi eu hamlinellu yn Nhabl 1 isod:-

Tabl 1 – Maini Prawf Prosiect

	Meini Prawf	Manylion
1	Ynni adnewyddadwy	<p>Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo'r defnydd o ynni adnewyddadwy neu sydd yn buddsoddi yn ei ddatblygiad (h.y. ynni o ffynhonnell nad yw'n teneuo wrth ei ddefnyddio e.e. solar neu wynt). Eithriadau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ellir ei ddefnyddio yn lle gwariant sydd yn gyfrifoldeb statudol unrhyw gorff cyhoeddus (e.e. ailosod boeler, neu rannol adeiladu adeilad cyhoeddus newydd sydd eisoes wedi ei gynllunio);</li> <li>• Rhaid i ymgeisydd arddangos gallu i gynnal unrhyw gyfarpar a brynir (os yn berthnasol);</li> <li>• Rhaid i ymgeisydd gyflwyno unrhyw fanylion mewn perthynas â pherchnogaeth unrhyw ased a brynir gydag arian o'r gronfa.</li> </ul>
2	Lleihau carbon	Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo lleihau allyriadau carbon neu yn buddsoddi yn hyn.
3	Lleihau gwastraff, ail-ddefnyddio ac ailgylchu	<p>Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo neu yn uniongyrchol yn lleihau cynhyrchu gwastraff, neu yn cynyddu ail ddefnyddio neu ailgylchu.</p> <p>Enghreifftiau yn cynnwys prosiectau cymunedol ail ddefnyddio.</p>
4	Bioamrywiaeth a gwelliannau i ansawdd yr amgylchedd lleol	<p>Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo lles yr amgylchedd, yn uniongyrchol fanteisiol i'r amgylchedd naturiol lleol neu yn ei wella (gan gynnwys gwella bioamrywiaeth) neu yn darparu manau gwyrdd ar gyfer cymunedau o fewn ardal partneriaeth Glannau Dyfrdwy.</p> <p>Gall hyn gynnwys adfer neu gefnogi bywyd gwylt a chynefinoedd naturiol.</p>
5	Di-garboneiddio	Cynlluniau sydd unai yn hyrwyddo'r defnydd o drafnidiaeth sydd yn lleihau allyriadau carbon neu sydd yn buddsoddi



trafnidiaeth	<p>yn ei ddatblygiad. Eithriadau yn cynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Ni ellir ei ddefnyddio yn lle gwariant sydd yn ddyletswydd statudol unrhyw gorff cyhoeddus;</li> <li>• Rhaid i ymgeisydd arddangos y gallu i gynnal unrhyw gyfarpar a brynir (os yn berthnasol);</li> <li>• Rhaid i ymgeisydd arddangos unrhyw fanylion o ran perchnogaeth unrhyw ased a brynir gydag unrhyw arian o'r gronfa.</li> </ul> <p>Enghreifftiau yn cynnwys prynu a gosod seilwaith gwefru cerbyd trydan.</p>
--------------	---

### Eithriadau

3.7. Mae'r eithriadau i'r grant fel a ganlyn, gan nodi na ellir defnyddio'r CBF:-

- I wneud taliadau i unigolion, sefydliadau masnachol neu glybiau chwaraeon ac adnoddau gydag aelodaeth preifat;
- Ar gyfer prosiectau fydd o fudd i un person yn unig;
- I wneud buddsoddiadau ar hap;
- I gyd-ariannu gweithgareddau statudol a gynhelir gan Gyngor Sir y Fflint;
- I dalu dirwyon neu gosbau eraill a osodir ar grwpiau, sefydliadau neu unigolion;
- Ar gyfer cynlluniau neu grwpiau / sefydliadau sydd wedi eu lleoli y tu allan i Ardal Partneriaeth Glannau Dyfrdwy;
- Gan ymgeiswyr i ddibenion sydd ynghlwm wrth eu busnes dydd-i-ddydd yn unig;
- I hyrwyddo credoau neu ymarferion crefyddol;
- I hyrwyddo daliadau gwleidyddol neu i ariannu ymgyrchoedd etholiadol gan ddarpar ymgeiswyr mewn etholiadau lleol a / neu cyffredinol;
- I dalu am ddigwyddiadau neu wasanaethau sydd eisoes wedi eu cynnal neu eu darparu;
- Ar gyfer prosiectau gyda'r bwriad o'u hyrwyddo neu gynnal astudiaethau posibilrwydd;
- Ar gyfer prosiectau a all beryglu'r amgylchedd naturiol neu adeiledig;
- Ar gyfer gwaith a ystyrir yn gyfrifoldeb statudol, megis gwelliannau i ffyrdd cyhoeddus neu feysydd parcio.

### Dyraniad cronfeydd

3.8. Caiff y CBF ei ddyrannu fel y gwelir yn Nhabl 2 isod:-



	Swm (amcangyfrif y flwyddyn )	Dyrannu i:	Sylw:
1	£30,000 - £50,000	Cefnogi defnydd y Ganolfan Ymwelwyr ym Mharc Adfer:- a. Gweithwyr sesiynol ar gyfer grwpiau myfyrwyr / ysgolion. b. Trafnidiaeth rad i ysgolion a myfyrwyr gyrraedd yr adnodd – ar gyfer y pum cyngor sy'n bartneriaid.*	Bydd y dyraniad hwn yn ddibynnol ar nifer yr ymweliadau â'r safle;
2	£30,000	Cynllun Grantiau Bach – hyd at £5,000	
3	£145,000 - £165,000	Cynllun Grantiau Mwy – 3 - 6 prosiect yn derbyn hyd at £50,000 y flwyddyn	
4	£5,000	Costau Gweinyddol	Amcangyfrif yn unig – wedi ei leihau gymaint ag sydd bosibl.

### Nodiadau Ychwanegol

- Caiff gweithwyr sesiynol eu recriwtio a'u hyfforddi i arwain ymweliadau â'r Ganolfan Ymwelwyr (e.e. ysgolion, grwpiau cymunedol ayyb). Gellir eu cadw ar sail hyblyg "ar alwad";

### Trefniadau Rheoli

3.9. Bydd y trefniadau rheoli a osodwyd ar gyfer y CRF yn parhau mewn lle ar gyfer y prif CBF. Mae hyn yn cynnwys Tim Rheoli Contract Parc Adfer fydd yn cyflawni gwaith gweinyddol megis cydlynu gydag ymgeiswyr, derbyn ceisiadau, diweddarau'r tudalennau perthnasol ar wefan CSFf, asesu'r ceisiadau yn erbyn y prif feini prawf cymhwyster ayyb). Caiff y gwaith hwn ei gefnogi gan swyddogion eraill CSFf fel bo angen o fewn yr adrannau perthnasol. Caiff y penderfyniad i dderbyn neu i wrthod cais am grant ei gymryd gan y Panel, a sefydlwyd ar gyfer y CRF.

3.10. Ar y funud mae aelodaeth y panel yn cynnwys nifer o aelodau CSFf, swyddogion CSFf, a chynrychiolwyr cyrff allanol, yn benodol Cyfoeth Naturiol Cymru a FLVC. Y bwriad yw cadw aelodaeth y panel fwy neu lai yr un fath, gyda nifer fach iawn o newidiadau / ychwanegiadau i adlewyrchu'r amcanion newydd a meini prawf newydd y grant (e.e. Aelodau Portffolio perthnasol a swyddogion penodol gydag arbenigedd / cyfrifoldebau / rolau o fewn gwaith diogelu'r amgylchedd yr Awdurdod).



## Camau Nesaf

3.11. Yn awr, gan fod trefniadau rheoli, cymhwyster a meini prawf y prosiect wedi eu cymeradwyo gan Gabinet Cyngor Sir y Fflint ac yn cael eu cyflwyno i'r Cyd Bwyllgor, y cam nesaf o ran y CBF yw i Brif Swyddog Sir y Fflint (Strydoedd a Thrafnidiaeth) arwyddo'r Canllawiau a'r pecyn ymgeisio, a lansio datganiad i'r wasg, gellir cyhoeddi'r cynllun yn ystod mis Mawrth 2022 (gweler Atodiad 3 isod).

## **4. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r Cyd Bwyllgor:

- 4.1. Nodi cynnwys yr adroddiad, a
- 4.2. Derbyn diweddariadau ar ddyraniad y gronfa a'r prosiectau llwyddiannus mewn cyfarfodydd y Cyd Bwyllgor yn y dyfodol.

## **5. GOBLYGIADAU ARIANNOL**

- 5.1. Fel y nodir yn 2.2 uchod.

## **6. EFFAITH GWRTH-DLODI**

- 6.1. Bydd y defnydd a fwriedir ar gyfer y Gronfa o fudd i rai o'r ardaloedd mwyaf difreintiedig yn Sir y Fflint.

## **7. EFFAITH AMGYLCHEDDOL**

- 7.1. Bydd y defnydd a fwriedir i'r Gronfa o fudd i'r amgylchedd lleol e.e. drwy bump maen prawf y prosiect

## **8. EFFAITH CYDRADDOLDEB**

- 8.1. Dim yn berthnasol.

## **9. GOBLYGIADAU PERSONEL**

- 9.1. Dim yn berthnasol.

## **10. YMGYNGHORI ANGENRHEIDIOL**

- 10.1. Dim.

## **11. YMGYNGHORIAD A GYNHALIWYD**

- 11.1. Dim.



## **12. ATODIADAU**

12.1 Dim

### **DEDDF MYNEDIAD AT WYBODAETH LLYWODRAETH LEOL1985**

**Dogfennau Cefndir:**

Dim.

**Swyddog Cyswllt:** Steffan Owen – Rheolwr Contract NWRWTP



## Appendix 2 – Summary of allocation of Parc Adfer Community Recovery Fund

Ymgeisydd	Type of organisation	Project Title	Summary of project / use of funds	Grant awarded
Ysgol Bryn Deva - Foyle Library Scheme	School	Foundation Phase Playground Development	Purchase of Galleon ship for school playground to allow further outdoor learning (Galleon costs were £16,000 the school fundraised the remainder).	£ 10,000
Enbarr Foundation CIC	Company Limited by Share or Guarantee	Beacon of Hope	Re-establish the John Summers Steel works historic Victorian gardens & surrounding site into a sustainable wild meadow, gardens, wetlands and woodland. Key aspects:- <ul style="list-style-type: none"> <li>• Soak away &amp; restore pathways.</li> <li>• drinking water fountains</li> <li>• equipment for clearing Invasive species</li> <li>• Biodiversity Equipment – Beehives, Rainwater Butts, animal Habitats and Boxes, Plants and Seeds and new trees</li> </ul>	£6,961.84
Ysgol Tŷ Ffynnon	Playgroup (within school hall)	Tŷ Ffynnon Playgroup	Purchase of age appropriate resources for two year old children, both indoor and outdoor:- <ul style="list-style-type: none"> <li>• Storage facilities eg. Shed &amp; cupboards.</li> <li>• Wipe clean cushioned seating that can be used indoor &amp; outdoor.</li> <li>• Work tables and seats at appropriate age and height.</li> <li>• Trikes and bikes for outdoor use.</li> <li>• Exploration resources indoors eg. Small world, Duplo, jigsaws and water etc.</li> </ul>	£4,997.90
Queensferry War Memorial Institute	Registered Charity	N/A	Allow the Institute to continue operating at its present level - provide a financial cushion enabling the Institute to continue providing a venue for community use. To offset the fixed costs of running the building in these times of reduced income. Notably the building insurance and liability cover.	£ 1,079





North East Wales Care & Repair Ltd	Company Limited by Share or Guarantee - "Charitable Community Benefit Society"	A Place for You	<p>The wider aim is to develop the 35-acre site, including sports fields and the adjoining Dee Park and woodland to provide a community hub for Glannau Dyfrdwy that C&amp;R call 'A Place For You'. The ambition is to provide an exemplar community health and wellbeing and education location with accessible activities for all on our new 35-acre site. The site is located on the River Dee coastal path.</p> <p>C&amp;R want to develop an education package that engages with local schools and sports groups. They have indicated the need to create an online presence with functionality that will allow us to educate, engage, inform and involve a wide range of people that includes schools, community groups and residents of Flintshire about the regeneration the site and increasing function of a 'A Place for You'.</p>	£6,750
Glannau Dyfrdwy Community Trust	Registered Charity	Green Space Hub	Purchase of 5m octagonal outdoor gazebo / shelter, ramp and handrail that will become a permanent part of the land.	£ 7,700
Connah's Quay Town FC	Grass roots football club	Dock Road Project - Barriers	Pitch barrier installation to meet football governing body's meini prawf	£ 2,025
Can Cook/Well Fed	Company Limited by Share or Guarantee - sits within a groups structure that has a charitable status	Well-Fed at Home Meal Box Service	Delivered box meals to vulnerable (elderly and school children inc pre school) - 100% of grant used for food. Other costs will be met by CC/WF.	£ 10,000



Groundwork North Wales	Registered Charity	Love your Space	Provide support with gardening tasks to vulnerable people in the Glannau Dyfrdwy area. Beneficiaries are mainly people who are older or have disabilities/health conditions, including those on low incomes. Tasks which supported with included grass cutting, trimming back overgrown shrubs, weeding, and general tidying/simple repairs. This project will take place over the summer of 2021 so that people could enjoy their gardens over the summer. The beneficiaries were people who could not otherwise afford gardening services, cannot maintain their gardens themselves due to age or health reasons, and/or have no family or friends who can help.	£ 5,000
Cambrian Aquatics	Company Limited by Guarantee (Community enterprise)	More Changing Rooms	Cambrian Aquatics Ltd required more changing room to improve social distancing and to enable more customers to use the centre following easing of the COVID-19 lockdown restrictions. After the previous lockdown they reopened but were only able to allow 15 customers through their one-way system for each session. They are hoping with the extra changing rooms they can slowly increase the number of customers back into the centre safely.	£5,896.80
Art and Soul Tribe	Community Interest Company (CIC)	Community Revival Fair	Arranged Community Fair at the Clock Tower site on the river Dee, for residents to "enjoy some music, food and nature to help rebuild their wellbeing and mental health after the turmoil's of COVID". The application stated that a "sudden uplift in deemed need and sales of tickets, and local crafts people wanting stalls and over 12 bands playing across the day, it has turned into a bigger affair we did not budget for"	£4,284
Book of You CIC	Community Interest Company (CIC)	Celebrating Life, Sharing Memories, Connecting People	Book of You is a digital "book" that focuses on memory prompts (e.g.photos, music, film, diaries and spoken messages) to add value to people's lives through shared conversations, capture memories and important times in people's lives. It is available in the digital cloud so is available to share with family and friends. Trained staff help with technical support, suggest ideas and get them started etc. The aim of this specific project is to work with Hwb Cyfle daycare centre in Queensferry to bring Book of You to that centre.	£5,000
Connah's Quay Old People's Association	Registered Charity. Charity no: 243148	Subsidise Transportation	To subsidise transport costs for Members of the group for their weekly gatherings - there are members that need transport to get to the venue, using buses or taxis (unable to drive or unwell). Quote from application - "These gatherings help reduce isolation and help mental wellbeing"	£1,040



## Appendix 2 – Draft Press Release for launch of Community Benefit Fund

Today, the North Wales Residual Waste Treatment Project (NWRWTP) Partnership (known as the Partnership) and Enfinium are pleased to announce that the Parc Adfer Community Benefit Fund is now up and running and open for applications.

The NWRWTP was formed by five North Wales Councils – Conwy County Borough Council, Denbighshire County Council, Flintshire County Council, Gwynedd Council and the Isle of Anglesey County Council – to jointly manage the residual waste generated by the populations from the five local authorities. Residual waste is the waste which is left over after recycling and composting as much as possible.

The Enfnium Parc Adfer Waste to Energy facility is located in Glannau Dyfrdwy Industrial Park and started to treat waste in 2019, diverting waste from landfill and generating enough renewable electricity for around 30,000 homes.

As part of their commitment to the local community, the Partnership and Enfnium have pledged to fund the long term Community Benefit Fund – worth £230,000 a year - for communities in the Glannau Dyfrdwy area. To date the fund has been used to fund an initial, short term, Parc Adfer Community Recovery Fund which is now closed for applications. It awarded grants to 13 projects with a total value of over £60,000.

The types of local organisations who can qualify for support are community and voluntary organisations, community and social enterprises and local (not national) charities based within the defined Glannau Dyfrdwy Partnership Area.

The fund is intended to support projects that help or will benefit the local environment, and there are five main project meini prawf that it will support, which are:-

1. Renewable energy
2. Carbon reduction
3. Waste reduction, reuse and recycling
4. Biodiversity and improvements to local environment quality
5. De-carbonisation of transport

Flintshire’s Cabinet Member for Streetscene, Councillor Glyn Banks, said:

“The Parc Adfer Community Benefit Fund is a long term fund intended to benefit communities within the Partnership area, in particular those living closest to Parc Adfer, with a focus on funding projects that help or benefit the environment. This is a really beneficial scheme and I would encourage all those organisations who are eligible to apply. This scheme will help with the continuation of the positive environmental work already taking place.”



**NWRWTP**  
North Wales Residual Waste Treatment Project

Applications for the Parc Adfer Community Benefit Fund can now be taken, and anyone interested in accessing the fund should contact the team on 01352 704783 or emailing [ParcAdferCommunityFund@flintshire.gov.uk](mailto:ParcAdferCommunityFund@flintshire.gov.uk).